## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Jeff Cuthbert AC
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

26 Mehefin 2014

Annwyl Weinidog

**Sesiwn graffu yn ystod y flwyddyn - cais am ragor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 19 Mehefin**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 19 Mehefin 2014 i roi tystiolaeth fel rhan o'n rhaglen craffu ar waith y Gweinidog yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth a ganlyn:

- manylion am y canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol fel rhan o'u gwaith craffu ar y sawl sy'n derbyn grantiau Cymunedau'n Gyntaf;
- manylion am unrhyw gynnydd yn ffigurau aelodaeth yr Undeb Credyd ar ôl ymgyrch farchnata Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- manylion am argaeledd tebygol dangosyddion perfformiad ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf;
- manylion am y trefniadau ar gyfer monitro'r tanwariant a gofnodwyd ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol;
- adroddiad cynnydd ar ddatblygiadau mewn perthynas â'r Credyd Cynhwysol;


Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel: 029 2089 8032
E-bost / Email : Pwyllgor.CCLlG@cymru.gov.uk

- **gwybodaeth am dargedau aelodaeth yr Undeb Credyd.**

**Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.**

**Yn gywir**

Chris Chapman.

**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd**